# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddiad; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Mabon Ap Gwynfor, Martyn Holland, Huw Jones, Gwyneth Kensler, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG) a Swyddog Cyllid/S.151 (RW); Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (LJ); Rheolwr Amgylchedd Adeiledig (GR); Rheolwr Cyllid a Sicrwydd (GW); Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cleient (KN); Rheolwr Datblygiad Masnachol (DM); Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a Stoc Tai (DL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNTIAU SYLW

(i) Croesawyd Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr y Cyngor gan yr Arweinydd i'w chyfarfod cyntaf o'r Cabinet a chyflwynwyd yr aelodau a oedd yn bresennol.

(ii) Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts i'r darganfyddiadau cadarnhaol o Archwiliad diweddar gan Estyn o'r Gwasanaethau Addysg a phawb oedd yn rhan o'r llwyddiant, yn y gorffennol ac ar hyn o bryd – crybwyllwyd yn benodol am gyfraniad Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Tony Thomas gysylltiad personol yn eitem 9 ar y rhaglen – Eiddo ar Rodfa'r Gorllewin a Sussex Street yn y Rhyl am ei fod yn aelod o Gyngor Tref y Rhyl.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni. Darparodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor –

- Y rhagolwg ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chorfforaeth yw tanwariant o £889k gydag opsiynau ar sut y gellir defnyddio'r tanwariant pe bai'r sefyllfa hynny'n parhau
- Amlygwyd y risgiau a'r gwahaniaethau ar hyn o bryd mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol gan gynnwys ansicrwydd a allai effeithio'r alldro ariannol
- Balans diffyg net arfaethedig o £0.844m ar gyfer ysgolion a'r effaith o ddyraniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £484k ar gyfer costau cynnal a chadw, a
- Darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol)

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Pwysau ar Wasanaethau Plant ac Oedolion wedi derbyn llawer o sylw ac yn cael ei ystyried yn ystod y broses llunio cyllideb ynghyd â phwysau eraill wedi'u nodi
- Asesiad yn cael ei wneud ar fynd i gostau o ganlyniad i amodau tywydd eithafol a thra bo Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid i gynghorau i'w roi yn erbyn y costau hynny ni fyddai yn ddigon i dalu am y cyfanswm cyfan o gostau - nodwyd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn y dyfodol i drafod cyllid priffyrdd
- Nid oedd y Cyngor yn atebol am gostau cludiant i'r ysgol i Goleg Dinbych am ei fod yn gyfleuster trydyddol ond y byddai costau ategol eraill yn sgìl y cau.
- Cynigodd y Cynghorydd Mabon Ap Gwynfor fod cyllid ar gyfer addysg, yn arbennig anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei gynnwys fel opsiwn ar gyfer y tanwariant posib gydag adroddiad i graffu ar ei ddyraniad.
  Eglurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y rheswm dros yr opsiynau a nodwyd yn yr adroddiad ac eglurodd y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer dyrannu'r tanwariant terfynol - mae'r tanwariant yn cynrychioli cyllid arian parod unwaith ac am byth a byddai ffigwr derfynol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad alldro ariannol a gyflwynir i Cabinet ym Mehefin i benderfynu sut y byddai'n cael ei ddefnyddio. Tynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts sylw at y buddsoddiad sylweddol mewn addysg a theimlodd y byddai gwerth mewn rhoi

rhagor o fanylion i aelodau o ran sut y mae addysg yn cael ei ariannu gan gynnwys ymrwymiad i gyllid Band B er mwyn iddyn nhw gael gwell dealltwriaeth o'r broses. Cytunwyd i ddarparu'r wybodaeth fel rhan o'r gweithdy cyllideb nesaf i aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol a chytunwyd arni.*

## 6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cafodd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet ei gyflwyno a nodwyd y byddai'r adroddiad alldro ariannol yn cael ei ychwanegu i'r rhaglen waith ar gyfer Mehefin.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol o fusnes ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 7 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am benderfyniad ar y parti o ddewis i gymryd perchnogaeth o'r safle unwaith y bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol wedi'i gwblhau.

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ar y broses ar gyfer penderfynu pa barti i'w ddewis yn seiliedig ar ddull cytundeb datblygu ynghyd ag asesiad technegol o'r cyflwyniadau tendr gan gynnwys y meini prawf gwerthuso a matrics sgorio. Gofynnwyd i Cabinet asesu pob cynnig ar gyfer y safle gan ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd er mwyn penderfynu pa opsiwn datblygu i'w ddewis. Adroddodd y Swyddogion ar wybodaeth a dderbyniwyd yn hwyr gan un o'r partïon a thrafodwyd gyda'r aelodau faint o sylw y dylid ei roi i'r wybodaeth hynny.

Ystyriodd y Cabinet werthoedd y cynigion o ystyried y meini prawf gwerthuso a'r pwysigrwydd ynghlwm â phob maen prawf. Rhoddwyd y cyfle i aelodau nad oedd ar y Cabinet i rannu eu safbwyntiau hefyd a gwahoddwyd aelodau lleol Dinbych yn arbennig i gyfrannu at y drafodaeth. Ymatebodd y Swyddogion i'r cwestiynau a nodwyd bod manylion y datblygiad yn amodol ar y broses gynllunio. Ailadroddwyd pwysigrwydd y safle ynghyd â'r angen i ddatblygu'r safle er mwyn darparu'r adeiladau hanesyddol gyda dyfodol cynaliadwy tra hefyd yn elwa'r economi. Wrth ddod i benderfyniad roedd yr aelodau yn cydnabod hanes cymhleth y safle gan ddiolch i swyddogion am eu gwaith caled i symud ymlaen i'r cam presennol yn y broses o ddiogelu'r safle. Nodwyd bod aelodau Sir Ddinbych yn cefnogi argymhellion yr adroddiad a chynghorwyd y cynigydd a ffefrir gan y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

(a) *cadarnhau mai Jones Bros mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Cadw Adeiladu Gogledd Cymru yw'r parti o ddewis i gymryd perchnogaeth o'r safle ar ôl cwblhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol;*

(b) *cytuno i'r Cyngor fynd i Gytundeb Datblygu a Thrwydded Galwedigaethol, sydd yn dderbyniol gan y Cyngor ac i ddechrau ar ôl cwblhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol a dirprwyo awdurdod i drafod y telerau ac amodau gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol; Economi a Pharth Cyhoeddus mewn cydweithrediad â'r Aelod Arweiniol dros Economi a Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth Cyllid (h.y. Swyddog adran 151), ac*

(c) *argymell fod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi cyflwyno Datganiad Breinio Cyffredinol, sef y rhan olaf o gadarnhau'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, gydag ystyriaeth i (a) a (b) uchod.*

Ar y pwynt hwn (11.05am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

**8 ADRODDIAD DIWEDDARU GWASANAETH MEWNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad cyfrinachol ynglŷn â'r ymarfer tendro mewn perthynas â throsglwyddo Canolfan Gofal Dydd Hafan Deg yn y Rhyl a chael cymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i'r cynigydd o ddewis sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad i gymryd y brydles drosodd a rhedeg y gwasanaeth gofal dydd.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndirol ar y penderfyniad ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau yn Hafan Deg yn y dyfodol gan gynnwys proses ymgynghori ddwys ac ymrwymiad y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Grŵp Tasg a Gorffen mewn gwerthuso effeithiau posibl. Manylion o'r ymarfer tendro a chanlyniad y broses werthuso wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â'r monitro arfaethedig yn y dyfodol o'r cynllun rheoli contractau trwy'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Cynghorodd y Cynghorydd Huw Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ynglŷn â chanlyniad y Grŵp Tasg a Gorffen ac roedd adroddiad dilynol i Bwyllgor Archwilio Perfformiad yn cadarnhau fod nifer o arsylwadau a sicrwydd ynglŷn â'r broses gwerthuso tendr, ac argymhellwyd bod Cabinet yn cefnogi dyrannu'r contract i'r cynigydd o ddewis. Tynnodd y Cynghorydd Jones sylw at yr anawsterau yn wynebu'r Grŵp Tasg a Gorffen o fewn y broses craffu ond roedd yn fodlon bod yr achosion wedi'u datrys ac wedi dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Lleisiodd y Cynghorydd Glenn Swingler sydd hefyd yn aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen ei bryderon ynglŷn â'r broses craffu yn yr achos hwn.

Yn ystod y drafodaeth fe ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynglŷn â diogelu o fewn contract ac ymhelaethwyd ymhellach ar ddarpariaethau isbrydlesau, rheoli ariannol ac ansawdd a mesuryddion perfformiad. Cyfeiriwyd hefyd at y trefniadau rheoli contract i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i fonitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth gwasanaeth. Nododd Cabinet y buddion o drosglwyddo a fyddai'n gwella ac ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i ddyfarnu'r contract i'r cynigydd a ffafriwyd fel yr amlygwyd yn yr adroddiad.*

## 9 EIDDO AR RODFA'R GORLLEWIN A STRYD SUSSEX, Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth i gaffael adeiladau Cam 1 a chymryd yr opsiwn i gaffael adeiladau Cam 2 yng Nghanol Tref y Rhyl fel y manylir yn yr adroddiad.

Eglurwyd y rhesymeg tu ôl i'r caffael arfaethedig er mwyn hwyluso'r prosiect i wella bywiogrwydd Canol Tref y Rhyl trwy ddychwelyd safle gydag eiddo sy'n wag ac yn cael eu tanddefnyddio i ddefnydd cynhyrchiol a fyddai'n gwella'r hyn sydd gan y dref i'w chynnig. Cynigwyd bod y caffael ond yn mynd yn ei flaen ar y sail y byddent yn cael eu hariannu'n llwyr yn allanol (trwy gyllid grant) a ddim yn costio dim i'r Cyngor.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei gefnogaeth i'r argymhelliad yr oedd yn credu oedd yn elfen allweddol yn y cam nesaf i gysylltu'r buddsoddiad yn y datblygiad glan y môr newydd i ganol y dref ac i ysgogi mwy o fuddsoddiad sector breifat yn y dref. Nododd y Cabinet y gwerthoedd adfywio yn perthyn i'r cynnig a chefnogwyd y caffaeliadau arfaethedig ar y sail yr oeddent wedi'u nodi yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) cymeradwyo caffael tir ac adeiladau Cam 1 ac yn cwblhau Opsiwn i gaffael tir ac adeiladau Cam 2 yn amodol ar y telerau canlynol -*

- *bod y caffael arfaethedig yn cael ei ariannu yn allanol 100% ac nid oes unrhyw gostau refeniw cysylltiedig gydag unrhyw gaffaeliadau.*
  *Os am unrhyw reswm bod y cyllid grant ar gyfer y cynnig ddim yn cael ei gyflwyno yna ni fydd y caffael yn mynd yn ei flaen.*
- *cyn cyflwyno unrhyw Hysbysiad Opsiwn i gaffael tir ac adeiladau Cam 2 mae'n rhaid i'r Cyngor fodloni'r un amodau cynsail cyn cael cymeradwyaeth i gyflwyno'r Hysbysiad*

*(b) cadarnhau bod y Cabinet wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn amgaeedig fel Atodiad 2 o'r adroddiad ac fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 10 SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

Cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad cyfrinachol ynglŷn â chynigion i'r Cyngor gwrdd ag anghenion wedi'u nodi yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 angen i awdurdodau lleol i ymgymryd ag asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac i wneud darpariaeth pe bai angen yn cael ei nodi. Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi nodi angen am un safle preswyl parhaol ac un safle teithiol ac mae amlinelliad o'r gweithredoedd hyd yma yn y broses dewis safle i gwrdd â'r anghenion wedi eu nodi yn yr adroddiad ynghyd

â’r argaeledd o gyllid grant a’r amserlen i’w gyflawni. Yn dilyn proses asesiad manwl o’r safleoedd posib argymhellwyd y dylid gwneud gwaith datblygu pellach ar y safleoedd penodol wedi eu nodi yn yr adroddiad. Eglurwyd fod Llywodraeth Cymru yn amharod i roi cyllid ar gyfer safleoedd preswyl a theithiol yn agos at eu gilydd a bod angen archwilio ymhellach i ddewis yr opsiwn hynny.

Yn ystod trafodaeth fanwl cyfeiriwyd at y gwaith cynhwysfawr a wnaed yn ddiweddar i ddod o hyd ac asesu hyfywedd safleoedd penodol. Cydnabuwyd bod gofyniad statudol i gwrdd â’r anghenion a nodwyd a bod llawer o drafodaeth os oedd modd cwrdd â darpariaeth safle preswyl a safle teithiol ar yr un pryd ac os na, a oedd yna un ddarpariaeth yn rhagflaenu’r llall ac y dylid ei ateb gyntaf, yn enwedig wrth ystyried yr amserlen dynn i wneud cais am gyllid grant. Heriodd y Cynghorydd Richard Mainon rhai o’r rhagdybiaethau a wnaed yn y gwerthusiad o’r opsiynau ar gyfer safleoedd a’r rhesymeg tu ôl i'r argymhellion ynglŷn â pha safleoedd y dylid eu defnyddio. Teimlai hefyd y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i’r gwerthoedd unigol ar gyfer pob safle yn hytrach na chanolbwyntio ar argaeledd y cyllid grant. Amlinellodd y Cynghorydd Tony Thomas y sefyllfa bresennol a’r canlyniadau posib a thynnodd sylw at argaeledd y cyllid grant fel ystyriaeth bwysig o fewn y broses hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd Mainon bod canlyniad y bleidlais yn cael ei gofnodi ar yr eitem hon. Wrth fynd i’r bleidlais roedd 7 yn pleidleisio o blaid yr argymhelliad a 1 aelod yn pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo bod gwaith datblygu pellach yn cael ei wneud ar y safleoedd fel yr argymhellir yn Atodiad 4 o’r adroddiad er mwyn symud ymlaen i'r Cam Gwneud Cais.*

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Mainon i nodyn gael ei wneud iddo bleidleisio yn erbyn y penderfyniad uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.35pm.